Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Playdays Childcare

**Adeilad y Goron**
**Lôn Brodog**
**Abergwaun**
**Sir Benfro**
**SA65 9NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Playdays Childcare

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Playdays Childcare |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Kelly McDonald |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | |
| Person â chyfrifoldeb | Kelly McDonald |
| Nifer y lleoedd | 45 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 20 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12 Ionawr 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 20/11/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd pellach i'r plant ddatrys problemau yn annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn hyderus. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas eu hardaloedd chwarae ac yn penderfynu pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus ac maent yn gwybod y caiff eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion eu hystyried gan yr ymarferwyr. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn parchu dewis y plant i beidio ag ymuno mewn gweithgaredd.

Mae bron pob plentyn yn setlo'n dda ac yn hapus yn y lleoliad. Maent yn hyderus wrth archwilio eu hardaloedd chwarae ac wrth ryngweithio â'r ymarferwyr a'r plant eraill. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfn y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o sicrwydd. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod bod angen sefyll mewn rhes i olchi eu dwylo yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r ymarferwyr yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn parchu ei gilydd a'r ymarferwyr, ac mae rhai plant yn dechrau dangos sensitifrwydd i anghenion eraill. Er enghraifft, mae rhai o'r plant hŷn yn helpu'r plant eraill i newid er mwyn mynd allan. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg ac maent yn dysgu i reoli eu hymddygiad yn dda. Mae'r plant yn mwynhau cael eu canmol gan yr ymarferwyr am rannu ac am fod yn garedig at ei gilydd. Maent wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r ymarferwyr ac maent yn mynd atynt am sicrwydd a chymorth.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn egnïol ac yn chwilfrydig wrth chwarae a dysgu ac maent yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Maent yn ymuno mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion neu'n dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae llawer o'r plant yn dyfalbarhau ac yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau am gyfnod priodol o amser, er enghraifft wrth osod gleiniau ar linyn neu wrth adeiladu tyrau, sy'n arwain at ymdeimlad o gyflawniad.

Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys cyfleoedd chwarae hunangyfeiriedig, digynllun y gallant ddewis o'u plith. Mae hyn yn eu galluogi i feithrin ystod dda o sgiliau, i ddod yn fwy annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a chânt eu cefnogi wrth chwarae gan yr ymarferwyr o'u cwmpas. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus i achub ar y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth sy'n addas ar gyfer eu hoedran. Er enghraifft, wrth olchi eu dwylo, gosod byrbryd ar eu plât neu sychu eu trwyn eu hunain.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn frwdfrydig yn ystod gweithgareddau ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn cymhwyso ystod eang o sgiliau yn effeithiol, sy'n gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn gydwybodol. Er enghraifft, wrth lenwi cynwysyddion a silindrau â phyffion reis a'u gwagio. Maent yn siarad yn hyderus â'i gilydd wrth chwarae'n greadigol am gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb i drafodaethau ac yn rhannu syniadau er mwyn cwblhau tasgau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gwblhau posau jig-so â siapiau tri dimensiwn mewn ffordd ddeallus. Mae llawer o'r plant yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol, gydag arweiniad ac anogaeth gan yr ymarferwyr. Maent yn mwynhau ymuno â rhigymau cyfarwydd a'u cyd-ganu yn ystod eu sesiynau amser cylch.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn trafod llyfrau yn synhwyrol. Maent yn ymgysylltu'n dda â straeon ac yn mwynhau trafod y digwyddiadau a'r lluniau yn y llyfrau â'u cyfoedion. Maent yn dangos diddordeb wrth ddisgrifio cymeriadau gwahanol ac yn ystyried canlyniadau gweithredoedd yn ofalus. Er enghraifft, maent yn ymateb yn frwdfrydig i anturiaethau deinosoriaid gwahanol.

Wrth chwarae, mae'r plant yn gwneud marciau pwrpasol gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol, megis sialc, paent a phinnau ysgrifennu lliw. Maent yn dechrau datblygu eu sgiliau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cofnodi eu ryseitiau yn dda wrth gymysgu cennin syfi a choriander â'i gilydd yn yr ystafell ddosbarth awyr agored. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn llwyddo i esbonio pam maent yn gwneud marciau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destunau priodol. Mae ganddynt sgiliau rhifedd cadarn ac maent yn mwynhau arbrofi ag ystod eang o gyfarpar mathemategol. Maent yn cyfrif yn hyderus wrth osod

gleiniau a botymau ar linynnau a glanhawyr pibelli. Yn ogystal, maent yn trafod ac yn cymharu meintiau gwahanol yr eirth a'r powlenni o uwd yn stori Elen Benfelen ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o nodweddion siapiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau corfforol yn llwyddiannus drwy reidio beiciau ar yr iard, cydbwyso a dringo ar gyfarpar antur. Maent yn mwynhau gweithio gyda'i gilydd i addasu eu syniadau, er enghraifft wrth newid cyflymder ceir wrth iddynt deithio i lawr llethrau. Mae'r agweddau cadarnhaol hyn yn cael effaith dda ar ddysgu'r plant.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau digidol yn effeithiol ac yn mwynhau'r ystod o gyfleoedd pwrpasol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn rheoli cyfeiriad teganau electronig, yn cyfathrebu gan ddefnyddio dyfeisiau siarad ac yn defnyddio apiau iaith a rhifedd ar lechi. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo'n dda ac yn cymhwyso eu sgiliau digidol mewn ffordd bwrpasol.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi gweithdrefnau addas ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cwblhau hyfforddiant priodol ar gymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhain. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder mewn unrhyw ffordd. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n effeithlon a'u gwerthuso er mwyn nodi unrhyw batrymau. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio system briodol i gofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes a'r feddyginiaeth a roddir. Mae polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda. Er enghraifft, mae'r cogydd yn paratoi prydau iach a maethlon. Mae'r ymarferwyr yn rhoi gweithdrefnau addas ar waith i hyrwyddo hylendid da, atal heintiau rhag lledaenu a lleihau risgiau. Er enghraifft, maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch a glanhau dyddiol yn yr ardal dan do a'r ardal awyr agored, gan leihau risgiau pan fo angen.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio yn dda ac maent yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Maent yn hyrwyddo disgwyliadau cyson o ran ymddygiad ac maent yn gweithio'n unol â'r polisi rheoli ymddygiad. Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant am ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn eu hatgoffa am ddisgwyliadau pan fo angen. Gwneir hyn mewn ffordd dawel a digynnwrf er mwyn tawelu sefyllfaoedd yn gyflym ac yn briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio technegau tynnu sylw, yn cynnig opsiynau amgen ac yn defnyddio sticeri i nodi enghreifftiau o ymddygiad cadarnhaol. O ganlyniad, mae'r plant yn ymateb yn dda i'r staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol i gefnogi chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac i ddiwallu eu hanghenion unigol. Maent yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfle i'r plant ymateb i'w cwestiynau neu eu ceisiadau a dim ond ar ôl annog y plant i roi cynnig arni eu hunain yn gyntaf y byddant yn cynnig cymorth. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau'r plant ymhellach ac maent yn eu cefnogi'n gyson dda yn eu chwarae a'u gweithgareddau dyddiol. Er enghraifft, maent yn annog iaith ddisgrifiadol megis '*crunchy*' a '*hard*'' wrth ddisgrifio ansawdd y ffrwythau yn ystod amser byrbryd.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant ac yn eu hasesu'n rheolaidd, gan roi diweddariadau rheolaidd i rieni a gofalwyr ar eu datblygiad. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i gynllunio ystod o brofiadau dysgu a chwarae i ddiwallu anghenion y plant a bodloni eu diddordebau. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn gofalu amdanynt yn effeithiol. Maent yn cydnabod achosion lle y gall fod gan blant anghenion ychwanegol, megis anawsterau emosiynol ac ymddygiadol neu anawsterau lleferydd ac iaith, gan gymryd camau priodol mewn modd amserol a gwneud defnydd da o wasanaethau cymorth.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae dulliau addysgu diwyd yr ymarferwyr yn cymell y plant i gymryd rhan lawn yn eu dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd y maent yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sy'n annog y plant i gymryd risgiau a datblygu eu sgiliau cymdeithasol a chydweithredol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i gymharu patrymau dail gwahanol yn yr ystafell ddosbarth awyr agored ac i wneud cawl a brechdanau wrth goginio yn y gegin fwd.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ac yn annog trafodaethau diddorol â'r plant wrth iddynt gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i rolio a thorri toes cyn cyfuno'r lliwiau gwahanol a defnyddio olion dwylo mewn paent i greu corynnod. Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol yn ystod gweithgareddau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddatrys problemau yn annibynnol, heb gymorth oedolyn.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang a diddorol, sy'n ystyried diddordebau'r plant yn dda. Maent yn addasu eu gwaith cynllunio yn bwrpasol er mwyn cynnal diddordeb a brwdfrydedd y plant yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn dysgu drwy amrywiaeth o heriau ymarferol, megis paentio lliwiau llosgfynydd a chreu deinosoriaid gan ddefnyddio platiau papur.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu sgiliau llythrennedd y plant ac yn eu cwestiynu'n fedrus wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd da i'r plant drafod sut mae dŵr yn rhewi i greu iâ ac i drafod y marciau gwahanol y maent yn eu gwneud gan ddefnyddio pinnau ysgrifennu lliw ar fyrddau gwyn. Maent yn datblygu sgiliau Cymraeg llafar y plant yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ganu rhigymau Cymraeg traddodiadol. Mae'r ymarferwyr yn datblygu sgiliau rhifedd a sgiliau digidol y plant yn effeithiol. Maent yn herio'r plant yn bwrpasol i drefnu a chyfrif marchgastanau a moch coed yn yr ardaloedd ymchwilio ac i dynnu lluniau cywir gan ddefnyddio llechi electronig a chamerâu.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio eu harsylwadau o gyflawniadau'r plant yn effeithiol er mwyn cofnodi eu cynnydd a chynllunio camau nesaf eu dysgu. Mae hyn hefyd yn eu helpu i roi gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i arbrofi a chymryd risgiau wrth chwarae, sy'n datblygu eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i ddringo ar gyfarpar antur, reidio beiciau a chydbwyso ar gerrig camu a darnau o bren. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd rhan lawn yn eu dysgu. Maent hefyd yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, megis galluogi'r plant i arbrofi â rhythmau gwahanol gan ddefnyddio offerynnau taro wrth ddawnsio a chanu.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu sgiliau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda, megis drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, ac maent yn astudio hanes morwrol harbwr y dref a'i chanonau. Maent hefyd yn dathlu amrywiaeth ac yn annog y plant i ddysgu am gymunedau gwahanol a'r byd o'u cwmpas. Mae hyn yn cynnwys trafod llyfrau am blant o wledydd eraill a thrwy wisgo i fyny mewn gwisgoedd traddodiadol o ddiwylliannau gwahanol. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu am wyliau, megis Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Yr Amgylchedd:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn gofalu am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac mae system addas ar waith ar gyfer rheoli mynediad i'r safle. Caiff amseroedd cyrraedd a gadael y plant a'r staff eu cofnodi. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymgymryd â gwiriadau diogelwch a chynnal a chadw yn rheolaidd. Er enghraifft, archwilio'r ardd yn systematig cyn i'r plant fynd i chwarae yn yr awyr agored. Mae systemau cadarn ar waith i nodi risgiau a'u dileu, lle y bo'n bosibl. Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân effeithiol a chywir a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd ac sy'n ymdrin ag ystod eang o feysydd. Maent yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu amrywiaeth o ardaloedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn lle gall y plant chwarae ac archwilio, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Mae cynllun yr ystafelloedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan fod yr adnoddau yn hygyrch ar y cyfan, gan alluogi'r plant i ddewis adnoddau heb fod angen cymorth gan oedolyn. Mae'r ardal ddarllen yn cynnig lle addas i blant sydd am eistedd ac edrych ar lyfr neu gael amser tawel. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod unrhyw ardaloedd chwarae awyr agored yn cael eu defnyddio mor aml â phosibl. Mae'r ardaloedd chwarae awyr agored mewn cyflwr da ac maent yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau diddorol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardaloedd yn unol ag anghenion y plant ac yn eu haddasu'n briodol. Mae'r ardaloedd hyn yn estyniad i'r ardaloedd dan do ac maent yn cynnig ardaloedd ac adnoddau sy'n ddigon heriol a diddorol i'r plant eu harchwilio a'u defnyddio wrth chwarae a dysgu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r plant sy'n llwyddo i gynnal eu diddordebau. Maent yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau sydd ar gael yn hawdd i gefnogi annibyniaeth a dewis y plant. Mae hyn yn cynnwys detholiad da o deganau a llyfrau Cymraeg ac amlddiwylliannol. Mae'r dodrefn o ansawdd da, mewn cyflwr da ac yn briodol i oedran y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn hyrwyddo cynaliadwyedd gyda'r plant drwy ddarparu deunyddiau naturiol a

deunyddiau wedi'u hailgylchu i'w defnyddio wrth chwarae yn ogystal â darparu cyfleusterau storio a dodrefn chwarae pren yn bennaf.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol sy'n canolbwyntio'n ddiwyd ar wella'r ddarpariaeth a chanlyniadau'r plant. Mae ganddynt weledigaeth glir ac maent yn cydweithio'n gydwybodol i ddarparu trefniadau gofal a chymorth effeithiol sy'n gwella dysgu'r plant mewn ffordd fuddiol. O ganlyniad i'w hagweddau cadarnhaol a'u harferion cadarn, mae'r arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cynnig profiadau diddorol a phwrpasol i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn rhoi gofal bugeiliol cryf i'r plant. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn yn y lleoliad. Mae'r ethos gofalgar a magwrus yn annog y plant i wneud eu gorau ac i ddyfalbarhau yn ystod sesiynau dysgu a chwarae. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn ymgymryd â hyfforddiant priodol i wella eu harferion addysgu a gofalu. O ganlyniad, maent yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i lwyddo. Mae'r arweinwyr hefyd yn sicrhau eu bod yn diweddaru dogfennau, polisïau ac arferion statudol y lleoliad yn rheolaidd. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel yn gyson.

Mae'r arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau wedi'u cynllunio'n dda er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Maent yn ymgymryd â phrosesau hunanwerthuso effeithiol, sy'n arwain at dargedau cywir ar gyfer gwella. Mae hyn yn eu helpu i nodi cryfderau a meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar wella sgiliau digidol y plant ac ar ddatblygu'r gwaith cynllunio er mwyn dilyn diddordebau'r plant mewn ffordd synhwyrol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff barn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad ei hystyried yn llawn. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol gyda'r holl randdeiliaid er mwyn gwella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, megis yr awgrymiadau gan asiantaethau cymorth. O ganlyniad, mae'r arweinwyr wedi addasu eu hardal awyr agored ac maent bellach yn defnyddio mwy o adnoddau naturiol i hyrwyddo profiadau dysgu a chwarae pwrpasol.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin ystod o bartneriaethau buddiol er mwyn helpu i gefnogi dealltwriaeth y plant o'u cynefin. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn ymweld â gorsaf leol gwylwyr y glannau, yr harbwr cyfagos ac yn defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael ar lwybr cerdded morol y dref. Yn ogystal, mae swyddogion yr heddlu yn ymweld â'r lleoliad i drafod diogelwch y ffordd ac mae ffermwyr yn ymweld er mwyn i'r plant allu astudio a bwydo ŵyn. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda llawer o ysgolion hefyd er mwyn hwyluso'r broses bontio ar gyfer y cam nesaf yn addysg y plant. Mae'r arweinwyr yn cysylltu â rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am ddatblygiad eu plant. Maent yn defnyddio llwyfannau diogel i gyfathrebu â'r rhieni yn synhwyrol a llyfrynnau cynnydd er mwyn rhoi gwybodaeth reolaidd a pherthnasol iddynt am gyflawniadau eu plant.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau yn effeithlon ac yn defnyddio'r gyllideb yn ofalus drwy flaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi gwella'r ardaloedd dysgu awyr agored drwy adeiladu ystafell ddosbarth awyr agored a darparu ceginau mwd ac ardaloedd adeiladu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 28 | The provider is not compliant because out of the three staff files viewed, one had no references, one had two references and one staff file had the one reference. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 25 Ionawr 2024